**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Ionawr 2023

Annwyl Russell,

**Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)**

Rwy'n ysgrifennu i'ch cynghori  bydd y Llywodraeth yn cyflwyno Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru), er mwyn galluogi cyflwyno trefn gaffael bwrpasol fydd yn berthnasol i wasanaethau iechyd GIG Cymru. Bydd y Bil byr, sy'n cynnwys pum adran, yn gwneud darpariaeth ar gyfer:

- “Pŵer i ddatgymhwyso” a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso’r ddeddfwriaeth berthnasol gan Senedd Cymru a Senedd y DU a fyddai fel arall yn gymwys i’r broses o gaffael gwasanaethau iechyd GIG Cymru;

- “Pŵer i wneud” i alluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno, drwy reoliadau, drefn gaffael ar wahân newydd ar gyfer y gwasanaethau iechyd hyn gan y GIG yng Nghymru.

Bydd y Bil ac is-ddeddfwriaeth bosibl yn ceisio galluogi sefydliadau fel y GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru i weithredu arferion caffael mwy hyblyg wrth gyrchu gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Er mwyn galluogi is-ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno cyn gynted â phosibl, bydd y Llywodraeth yn cynnig cyflymu’r amserlen ar gyfer y Bil a fydd yn ei alluogi i gyrraedd Cam 4 cyn toriad yr haf. Bydd manylion pellach ynglŷn â gweithredu yn cael ei ddarparu ym mhapur Pwyllgor Busnes y Llywodraeth.

| Carreg filltir | Dyddiad |
|---|---|
| Cyflwyniad | 13 Chwefror 2023 |
| Diwedd Cyfnod 1 | 28 Ebrill 2023 |
| Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol | 9 Mai 2023 |
| Cyfnod 2 | 10 Mai 2023 – 9 Mehefin 2023 |
| Cyfnod 3 | 4 Gorffennaf 2023 |
| Cyfnod 4 | 11 Gorffennaf 2023 |

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn hwyluso trosglwyddo’r Bil hwn, rwy'n hapus i weithio'n hyblyg gyda'r Pwyllgor a hoffwn gynnig briff technegol i'r Pwyllgor ar y Bil gyda fy swyddogion i gynorthwyo eu dealltwriaeth o'r cynnig.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services